# PAPURAU BUSNES

## Rhan I – Adran D

### Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 3 Gorffennaf 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff edrych yn fanwl ar hyd a lled defnydd Awdurdodau Iechyd Cymru o gyfleusterau meddygol preifat? (WAQ6317)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sawl achos a wrandawyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd yn 1998/99 ac 1999/00 a sawl un oedd yn llwyddiannus? (WAQ6320)

**David Melding (Canol De Cymru);** Pa fesurau y mae'n eu hystyried er mwyn gwella gwybodaeth ymarferwyr cymwys am eneteg feddygol. (WAQ6322)

**David Melding (Canol De Cymru);**. Pa fesurau y mae'n eu cymryd er mwyn asesu'r angen am enetegwyr meddygol a chynghorwyr genetig yn y dyfodol. (WAQ6323)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r cyffur Beta Interferon a'i ddefnydd posibl gan ddioddefwyr Sglerosis Ymledol yng Nghymru? (WAQ6327)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch asesiad Cyfundrefn Iechyd y Byd sy'n gosod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ddeunawfed o ran effeithiolrwydd o blith systemau iechyd y byd? (WAQ6328)

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ynghylch cael lle yn y rhaglen bob blwyddyn ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol sydd wedi ei noddi gan y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ6318)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'n bwriadu rhoi rôl i Bwyllgorau Pwnc a Phwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad yn y broses o benderfynu pa bolisïau i'w datblygu er mwyn hybu deddfwriaeth sylfaenol a noddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn Senedd y DU? (WAQ6331)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ystyried sefydlu Comisiwn Cymreig ar gyfer Pensaernïaeth a Chynllunio? (WAQ6321)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff restru pa ffermydd gwynt a gafodd ganiatâd cynllunio yng Nghymru, a dyddiadau rhoi'r caniatâd cynllunio? (WAQ6324)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaed asesiad o gyfraniad ffermydd gwynt i'r system ynni yng Nghymru ac a wnaiff gyhoeddi'r asesiad? (WAQ6325)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaed asesiad o effaith ffermydd gwynt ar dwristiaeth yng Nghymru. Os gwnaed, a wnaiff gyhoeddi'r asesiad. Os na wnaed, a wnaiff gomisiynu asesiad? (WAQ6326)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi eu cyflwyno i San Steffan ynghylch y gwrthwynebiad cyfreithiol posibl o America i'r Prosiect Bws Awyr Ewropeaidd a'i effaith ar y Diwydiant Awyrennau yng Nghymru? (WAQ6329)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'n eu cyflwyno i'r Adran Diwydiant a Masnach ynghylch cyflwyno system Trosglwyddo Credyd Awtomataidd mewn Swyddfeydd Post yng Nghymru? (WAQ6330)